



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Hydref 2026

Annwyl [Prif Swyddogion Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, Ofwat, Arolygiaeth Dŵr Yfed]

Ysgrifennaf atoch i nodi bwriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cyfnod pontio ar gyfer y diwydiant dŵr, a'n blaenoriaethau ar gyfer datblygu Adolygiad Prisiau 2029 (PR29).

Yn gyntaf, fodd bynnag, hoffwn gydnabod yr arbenigedd a'r ymdrechion rydych chi wedi'u cyfrannu wrth ddatblygu cynigion i wella goruchwyliaeth o'r diwydiant ac wrth gydnabod yr angen am ddull gweithredu gwahanol yng Nghymru o fewn y drefn reoleiddio bresennol. Rwy'n gwybod eich bod mor angerddol â minnau am wella'r diwydiant, ac edrychaf ymlaen at gydweithio â chi wrth i ni ddatblygu cynigion i Gymru at y dyfodol.

Cyflawni system sy'n gweithio i Gymru

Mae'r sector dŵr yn ei gyfanrwydd mewn cyfnod tyngedfennol, ac mae gennym gyfle i lunio system reoleiddio sy'n gweithio i Gymru. Fy uchelgais yw system sy'n sicrhau afonydd, llynnoedd a moroedd glân a ffyniannus, sy'n sylfaenol i ddarparu'r gwasanaethau rydym i gyd yn dibynnu arnynt. Mae hyn yn cynnwys dŵr yfed diogel a digonol o ansawdd uchel, sy'n cefnogi canlyniadau iechyd cyhoeddus, a gwasanaethau fforddiadwy sy'n gallu diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn ein hymrwymo i fabwysiadu dull seiliedig ar ddalgylch i wella ansawdd dŵr, mynd i'r afael â llygredd a chynyddu gwydnwch natur a hinsawdd. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu sefydlu rheoleiddiwr a chynllunydd system newydd, fel bod penderfyniadau ynglŷn â dŵr yn cael eu gwneud yng Nghymru, ar gyfer Cymru. Dylai'r diwydiant dŵr ddarparu gwerth cyhoeddus parhaol i'n cymunedau a'n hamgylchedd. Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr, cwsmeriaid a chymunedau i droi'r uchelgais hon yn welliannau mesuradwy, tra'n cynnal gwasanaethau hanfodol yn ystod unrhyw gyfnod pontio.

Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod Cymru'n meddu ar y pwerau sydd eu hangen i reoleiddio'r diwydiant dŵr yn effeithiol. Cam allweddol fydd cydweddu'r ffin reoleiddiol â'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr, a byddaf yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i weithredu hyn ar gyfer dechrau AMP9 (2030). Rwy'n disgwyl i chi weithio gyda fy

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Llyr.Gruffydd@llyw.cymru
Correspondence.Llyr.Gruffydd@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

swyddogion a chwmnïau dŵr i baratoi ar gyfer y newid hwn. Dylech sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn cael eu cynnal, gofynion statudol yn cael eu bodloni (gan gynnwys diogelu'r amgylchedd), a bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu yn ystod y cyfnod pontio hwn.

Trefniadau pontio

Ein rhagdybiaeth gynllunio bresennol yw y bydd dau gyfnod pontio i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer diwygio'r drefn reoleiddio a rheoli dalgylch effeithiol, yn dibynnu ar gynnydd cynigion deddfwriaethol. Mae'r cyntaf yn cynnwys sefydlu'r rheoleiddiwr newydd yn Lloegr, gydag Uned Cymru sy'n canolbwyntio ar anghenion Cymru a chwsmeriaid yng Nghymru. Yr ail yw'r cyfnod pan fydd deddfwriaeth yn cael ei datblygu yn y Senedd hyd nes y caiff corff newydd i Gymru ei sefydlu.

Yn ystod y cyfnod pontio cyntaf hwn, rydym yn disgwyl i reoleiddwyr gynnal goruchwyliaeth effeithiol o'r diwydiant dŵr, gyda chefnogaeth adnoddau a gallu rheoleiddio pwrpasol ar gyfer Cymru, ymgorffori diwygiadau perthnasol o fewn y drefn reoleiddio bresennol, a chynnydd parhaus o ran gwella'r amgylchedd, diogelu iechyd y cyhoedd a darparu gwasanaethau gwydn tra bod diwygiadau tymor hwy yn cael eu datblygu. Ar ôl ei sefydlu, bydd y rheoleiddiwr dŵr integredig newydd yn Lloegr yn goruchwyllo swyddogaethau rheoleiddio economaidd a dŵr yfed dros dro ar gyfer Cymru, hyd nes y gellir trosglwyddo'r rhain. Bydd hyn yn darparu parhad gwasanaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol, gan sicrhau nad oes unrhyw darfu ar gwsmeriaid, cwmnïau dŵr na rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod pontio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r rheoleiddiwr newydd i sicrhau ei fod yn gallu ymateb i anghenion Cymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cadw ei gyfrifoldebau amgylcheddol presennol, a bydd cynrychioli ac eiriol ar ran defnyddwyr yn parhau i fod yn flaenoriaeth drwy gydol y cyfnod pontio gydag eiriolwr cwsmeriaid mwy cadarn yn cynrychioli cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rheoleiddiwr newydd ddatblygu dull mwy integredig o reoleiddio drwy berthynas waith agored, effeithiol a chydweithredol.

Cydweithredu a diwygiadau cynnar

Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'r gwaith parhaus gan y rheoleiddwyr i wella prosesau fel yr adroddiad mewnwelediad ar y cyd sydd ar ddod i roi trosolwg o berfformiad cwmnïau dŵr. Rwy'n eich annog i barhau i gysylltu â'm swyddogion ac i weithio gyda'ch gilydd i ysgogi gwelliannau ac ymgorffori argymhellion y Comisiwn Dŵr Annibynnol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn cynnwys gweithio'n effeithiol gyda'ch cymheiriaid yn Lloegr i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer dalgylchoedd a rennir. Mae cynllunio ar gyfer yr Adolygiad Prisiau (PR29) yn gam pwysig ar ein taith i wella canlyniadau'r diwydiant. Er y bydd y broses gynllunio yn cael ei chynnal o fewn y drefn bresennol, bydd y buddsoddiadau'n cael eu cyflawni o fewn cyfundrefn reoleiddio well ac rwy'n disgwyl i chi ddatblygu eich methodolegau mewn modd sy'n cyflawni'r blaenoriaethau isod, ac i sicrhau bod penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru yn cael eu gwneud gan Gymru. Y blaenoriaethau fel y'u cyflwynwyd i'r fforwm Adolygu Prisiau yw:

- **Fforddiadwyedd a thegwch** – Dylai buddsoddiad ddarparu gwerth cyhoeddus clir, lleihau anghydraddoldebau, cynnig gwell amddiffyniad i gwsmeriaid agored i niwed, a diwallu anghenion cenedlaethau presennol heb gyfaddawdu gallu'r cenedlaethau nesaf i ddiwallu eu hanghenion hwythau;

- **Gwella amgylcheddol** – Blaenoriaethu camau gweithredu sy'n cynyddu gwydnwch a gweithrediad ecosystemau, yn enwedig drwy gyflawni gwelliannau mesuradwy o ran ansawdd dŵr a chyflwr safleoedd gwarchodedig;
- **Diogelwch a gwydnwch dŵr yfed** – Dylai cynllunio a buddsoddi ganolbwyntio ar gynllunio hirdymor ac ataliol, rheoli risgiau sy'n dod i'r amlwg, cynyddu gwydnwch systemau (gan gynnwys ymyriadau yn y ffynhonnell), a chynyddu cydymffurfiaeth reoleiddiol a thryloywder;
- **Iechyd a gwydnwch asedau** – Sicrhau newid i fwy o fuddsoddiad i wella iechyd a gwydnwch seilwaith hirdymor, gan gynnwys drwy gyflawni canlyniadau allweddol fel lleihau gollyngiadau, cynyddu gwaith adnewyddu a chynnal a chadw asedau, cynyddu dealltwriaeth o gyflwr asedau, a mwy o wydnwch i'r hinsawdd;
- **Cyflawnadwyedd** – Mabwysiadu dull cydweithredol i sicrhau bod cynlluniau yn gyflawnadwy ac yn ennyn ffydd cymunedau. Dylai cynigion fod yn effeithlon, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw, yn gymesur ac yn cyflawni ar gyfer Cymru.

Ceir rhagor o fanylion yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Byddaf yn rhoi cyfarwyddyd pellach i Ofwat yn ddiweddarach eleni drwy Ddatganiad Polisi Strategol wedi'i ddiweddarau, i adlewyrchu blaenoriaethau'r Llywodraeth hon, yn ogystal â darparu cyfeiriad i'r diwydiant ehangach drwy weithio gyda'r Fforwm Adolygu Prisïau a chyhoeddi arweiniad strategol i'r diwydiant yn gynnar yn 2027.

Rwy'n disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gadw ffocws clir ar sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol sydd eu hangen ar gyfer Cymru drwy gydol PR29 ac unrhyw gyfnod pontio. Mae hyn yn cynnwys rheoleiddio a gorfodi effeithiol, gwelliannau mesuradwy o ran ansawdd dŵr a safleoedd gwarchodedig, a gweithredu i wella gwydnwch ecosystemau. Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru weithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr eraill i sicrhau bod gofynion amgylcheddol yn cael eu hadlewyrchu o'r cychwyn cyntaf ym mhenderfyniadau cynllunio a buddsoddi cwmnïau.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyd ar ddylunio system sy'n gweithio i Gymru, ac rwy'n disgwyl i'r diwydiant dŵr ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer yr adolygiad prisïau nesaf yn unol â'r uchelgais a'r rhagdybiaethau cynllunio a amlinellir yn y llythyr hwn a'r Atodiad.

Yn gywir,

Llŷr Gruffydd AS/MS

Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability

Atodiad – Canllawiau ategol ar bontio ac adolygiad prisiau

Cyflawni dros Gymru

Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â phontio wedi ei gynllunio i sicrhau sefydlogrwydd i gwsmeriaid a buddsoddwyr, tra'n parhau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, wrth i ni weithio tuag at system newydd i Gymru yn y dyfodol. Bydd y broses yn darparu hyblygrwydd i weithredu gwelliannau lle mae cyfleoedd yn cael eu nodi i gamu ymlaen tuag at system newydd. Wrth fynd i'r afael â newid, bydd Llywodraeth Cymru yn:

- Defnyddio fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i lywio dull sy'n ymgorffori tegwch, cynaliadwyedd a gwerth cyhoeddus.
- Mabwysiadu dull ystyriol i sicrhau hyder rhanddeiliaid, gan gydbwyso sefydlogrwydd â chyfle i gyflawni'r canlyniadau gorau.
- Mabwysiadu dull cydweithredol ac ymddiriedus gyda rhanddeiliaid allweddol, gan fanteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd cyfun sydd ar gael i ni i gynllunio'r canlyniadau a'r atebion cywir ar gyfer Cymru.
- Rhoi disgwyliadau cwsmeriaid yng Nghymru wrth wraidd ein syniadau.
- Cyflawni gwelliannau amgylcheddol i gynyddu gwydnwch ein hasedau naturiol.
- Sicrhau bod gwelliannau mewn perfformiad yn cael eu gwireddu, rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni a gwasanaethau hanfodol cael eu cynnal.
- Nodi a rheoli yn effeithiol unrhyw risgiau i uchelgeisiau a chanlyniadau'r rhaglen diwygio dŵr (sy'n gysylltiedig ag amcanion llesiant Llywodraeth Cymru).
- Gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth y DU a sicrhau bod materion trawsffiniol yn cael eu hystyried yn briodol.
- Annog archwilio a threialu gwahanol ddulliau i asesu eu heffeithiolrwydd o ran cyflawni canlyniadau a deall y cyfleoedd ar gyfer newid yn well.

Wrth i newidiadau gael eu cyflwyno, mae sicrhau parhad o ran goruchwyliaeth reoleiddiol o'r diwydiant dŵr yng Nghymru yn flaenoriaeth allweddol. Mae'r oruchwyliaeth hon yn cynnal, ac yn sail i, safonau iechyd y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd a hawliau cwsmeriaid, ac mae'n rhaid ei chynnal wrth i strwythurau newydd gael eu sefydlu. Bydd unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn destun ymgynghori ymlaen llaw, a bydd newidiadau yn y cyfamser yn seiliedig ar y fframwaith cyfreithiol, gyda chyfrifoldebau sefydliadol clir yn cael eu rhoi ar waith a'u cyfathrebu.

Er mwyn sicrhau nad oes bwlch mewn goruchwyliaeth reoleiddiol o gwmnïau dŵr yng Nghymru, bydd Ofwat a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed yn parhau i ddarparu swyddogaethau rheoleiddio economaidd a dŵr yfed i Gymru (gan gynnwys ymgymryd â PR29), gyda'r swyddogaethau hyn wedyn yn destun goruchwyllo gan y rheoleiddiwr integredig yn Lloegr am gyfnod dros dro. Mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylid gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru yng Nghymru, a dylai'r rheoleiddiwr integredig newydd gynnwys swyddogaeth Gymreig ag atebolrwydd clir, gyda'r awdurdod, yr adnoddau a'r gallu i adlewyrchu cyfraith, bwriad polisi ac amgylchiadau gweithredol Cymru. Rhaid iddo gadw a darparu'r wybodaeth arbenigol, y perthnasoedd a'r gallu sefydliadol sydd eu hangen i gynnal rheoleiddio effeithiol a chefnogi trawsnewid esmwyth i reoleiddiwr Cymreig. Dylai'r rheoleiddwyr barhau i weithio gyda fy swyddogion i nodi'r swyddogaethau, yr arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol o ran Cymru yn ystod y cyfnod pontio.

Bydd annibyniaeth reoleiddiol yn parhau i fod yn hanfodol. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu blaenoriaethau a chanlyniadau strategol, gyda rheoleiddwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am arfer eu swyddogaethau statudol a dod i benderfyniadau rheoleiddiol unigol. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu blaenoriaethau a chanllawiau strategol i reoleiddwyr, gyda rheoleiddwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am arfer eu swyddogaethau statudol. Bydd hyn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau rheoleiddiol a sicrhau bod gweithgarwch rheoleiddio yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr, yr amgylchedd a defnyddwyr.

Mae'r DU a Llywodraeth Cymru yn bwriadu cychwyn darpariaethau sy'n cydweddu'r ffin reoleiddiol â'r ffin ddaearyddol, gan ddileu'r sail reoleiddio bresennol yn gyfan gwbl neu gan mwyaf, o ddechrau AMP9 (Ebrill 2030). Fel rheoleiddwyr, dylech sicrhau bod cynllunio ar gyfer PR29 yn adlewyrchu'r trefniant hwn, a bod unrhyw risgiau gweithredol, rheoleiddio, cwsmeriaid neu ariannol yn cael eu rheoli. Dylai eich dull sicrhau parhad gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, bod rhwymedigaethau statudol yn cael eu bodloni, bod cwsmeriaid yn cael eu diogelu (gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu'n derbyn cymorth ariannol) a chydabod pwysigrwydd cyfathrebu clir. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio ar gyfer y newid hwn, rydym yn disgwyl i reoleiddwyr weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod yr amddiffyniadau hyn ar waith a hwyluso gweithredu di-dor.

Dull goruchwyllo a rheoleiddio'r diwydiant dŵr

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat arwain ar ddatblygu dull rheoleiddio sy'n ymwreiddio ein hymrwymiaadau, gan symud tuag at [ddull mwy moesegol](#) o oruchwyllo cwmnïau dŵr. Mae hyn yn cynnwys ymwreiddio egwyddorion defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy o fewn y broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod penderfyniadau'n cefnogi llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae maint y diwydiant dŵr yng Nghymru yn golygu bod rheoleiddwyr yn gallu datblygu dealltwriaeth lawn o'r cwmnïau y maent yn eu goruchwyllo a'u rheoleiddio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rheoleiddwyr weithio gyda'i gilydd i ddatblygu dull lle mae goruchwyliaeth barhaus ac ymgysylltu rhagweithiol yn caniatáu iddynt feithrin gwell dealltwriaeth o amgylcheddau gweithredu cwmnïau dŵr, yn unol â'r Datganiad Polisi Strategol. Nid yw rheoleiddio'r diwydiant dŵr yn canolbwyntio ar economeg yn unig, a dylai'r rheoleiddwyr weithio gyda'i gilydd i sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth gyffredin, gynhwysfawr a chyflawn o berfformiad cwmni, y camau gweithredu sydd eu hangen i wella perfformiad, a sicrhau effeithlonrwydd eu dull rheoleiddio (megis rhannu data a thystiolaeth). Dylai'r rheoleiddwyr ddatblygu fframwaith goruchwyllo ar gyfer Cymru – dylid cadw cymaryddion traws-ddiwydiant lle bo hynny'n fuddiol, a dylai dulliau gweithredu sicrhau bod cwmnïau'n gallu cyflawni eu canlyniadau ehangach. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chi i ddatblygu'r dull hwn ymhellach. Dylai'r fframwaith hwn nodi'n glir sut y bydd y rheoleiddwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu polisiau a phrosesau a rennir ar gyfer y diwydiant dŵr.

Mae Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Cymru (gan gynnwys yr egwyddorion yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) eisoes yn galluogi'r rheoleiddwyr i gyflawni eu swyddogaethau mewn modd hyblyg ac yn caniatáu iddynt wneud y mwyaf o'r manteision maent yn eu cyflwyno wrth gyflawni'r swyddogaethau hynny. Dylai Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru weithio gyda'i gilydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, megis Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i archwilio a chyflwyno canfyddiadau ar ble y gellir cymhwyso hyn ymhellach i reoleiddio'r diwydiant dŵr, a'r rhwystrau i'w ddefnyddio ar hyn o bryd.

Wrth ddatblygu unrhyw bolisiau fel rhan o'r broses bontio neu Adolygu Prisiau, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol a'r datganiad cysylltiedig gan Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol yn Neddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai Ofwat, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a'r rheoleiddiwr integredig yn y dyfodol hefyd ystyried y rhain.

Fframwaith cynllunio

Dylai'r penderfyniadau terfynol ar gyfer AMP 8, a ddatblygwyd yn ystod Adolygiad Prisiau 2024, barhau yn unol fel y'u cytunwyd a'u hariannwyd. Bydd y rheoleiddwyr yn dal cwmnïau dŵr i gyfrif am eu cyflawni.

Bydd PR29 yn cael ei gynnal fel adolygiad prisiau 5 mlynedd, gan bennu'r costau ar gyfer y cyfnod 2030-2035 (AMP9). Bydd y broses yn cael ei harwain gan Ofwat a'r corff sy'n ei olynu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Ofwat, ei gorff olynol, rheoleiddwyr eraill a'r sector ehangach sicrhau bod eu methodolegau a'u canllawiau i gwmnïau ar gyfer PR29 wedi'u teilwra i flaenoriaethau a chanlyniadau Cymru. Dylai Ofwat sicrhau bod methodoleg PR29 (a fydd yn cwmpasu Cymru a Lloegr) yn gwireddu manteision mabwysiadu dull a rennir o reoleiddio'r diwydiant, gan adlewyrchu unrhyw wahaniaethau o ran y dull ar gyfer Cymru lle bo hynny'n briodol.

Ar gyfer PR29 mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i reoleiddwyr a chwmnïau wneud y canlynol:

- Gweithio gyda Fforwm Adolygu Prisiau Cymru, sydd wedi'i sefydlu i gynyddu cydweithrediad a thryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau PR29;
- Blaenoriaethu a chyflawni'n glir yn unol â'r arweiniad strategol diweddaraf (i'w gyhoeddi i'r Fforwm Adolygu Prisiau) i sicrhau bod modd cynhyrchu cynllun busnes fforddiadwy;
- Mabwysiadu dull gweithredu o ran prosesau cynllunio sy'n gymesur a chydweithredol, ac yn cyflawni manteision lluosog – gan ddarparu atebion sy'n sicrhau'r canlyniadau gorau i'r amgylchedd ac i gymdeithas;
- Sicrhau bod iechyd, cynnal a chadw a gwydnwch asedau wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau buddsoddi cwmnïau dŵr;
- Cyflawni camau gweithredu o fewn prosesau cynllunio PR29 sy'n cynyddu gwytnwch, gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a darparu gwelliant amgylcheddol ystyrion hirdymor – gan ymgorffori gorwelion cynllunio 5/10/25 mlynedd;
- Datblygu dulliau sy'n darparu fframwaith sefydlog a rhagweladwy sy'n hwb i hyder buddsoddwyr;
- Mabwysiadu dull ailadroddus ac agored o ddatblygu cynlluniau sy'n cymell buddsoddiad, gan gynnwys gweithredu agweddau ar reoleiddio 'llyfr agored' lle byddai hyn yn fuddiol;
- Symleiddio prosesau, lle bydd hynny'n cyflawni'r un canlyniadau neu ganlyniadau gwell, tra'n darparu rhagor o gapasiti i'r diwydiant a rheoleiddwyr – dysgu o brofiadau blaenorol a phrofi dulliau newydd lle byddai hynny'n fuddiol;
- Datblygu prosesau i wella cysondeb data, gwerthuso economaidd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid rhwng cynlluniau – ymgysylltu er mwyn sicrhau'r gallu i ryngweithredu ar draws ffiniau a chymhwyso arferion gorau i fethodoleg Cymru;

- Dangos sut y bydd cynlluniau a buddsoddiad cwmnïau yn cryfhau gwydnwch gwledig ac yn darparu budd cymunedol parhaol, gan gynnwys drwy gefnogi cyflogaeth a sgiliau lleol, seilwaith gwydn a chadwyni cyflenwi cynaliadwy

Dylai Ofwat sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer PR29 yn cael ei datblygu i ddarparu'r gwerth gorau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Rydym yn disgwyl bod y meysydd canlynol yn cael eu hystyried:

- Rhesymoli'r fframwaith ymrwymiad perfformiad (gan gynnwys cymhellion cyflawni canlyniadau a lefelau ymrwymiad perfformiad) fel bod cymhellion yn ystyrlon, yn ddealladwy ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau Cymru;
- Mwy o gysondeb a thryloywder wrth bennu cost cyfalaf, sy'n cyd-fynd ag ymagwedd Cymru at fforddiadwyedd, buddsoddiad a gwerth cyhoeddus;
- Tynnu'r Asesiad Ansawdd ac Uchelgais yn ôl a dylunio proses newydd;
- Gwell cysondeb mewn senarios a rhagdybiaethau cynllunio'r diwydiant dŵr, gan gynnwys gwerthusiad economaidd ac asesu buddion sy'n cyflawni llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy;
- Gwell dealltwriaeth o gyflwr a phrosesau asedau i sicrhau bod buddsoddiad hirdymor mewn cyflwr asedau yn cael ei flaenoriaethu.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi rownd bellach o strategaethau cyflawni hirdymor annibynnol ar gyfer cwmnïau dŵr PR29. Byddai'n well ganddi fod rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr yn canolbwyntio ar ddatblygu methodoleg sy'n galluogi cynlluniau unigol i ystyried tueddiadau hirdymor a chyflawni yn erbyn y Nodau Llesiant.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a rheoleiddwyr i sicrhau gwaith cynllunio cydlynol ar ddalgylchoedd trawsffiniol. Pan fo swyddogaethau newydd wedi'u sefydlu yn Lloegr, megis treialu cynllunio rhanbarthol, rydym yn disgwyl i ardaloedd perthnasol (fel y rhai ar y ffin) gynnwys Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr priodol lle mae penderfyniadau yn cael eu gwneud sy'n effeithio ar Gymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i sicrhau bod mecanweithiau priodol ar gyfer ymgysylltu trawsffiniol yn cael eu cynnal, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU. Lle mae mecanweithiau ymgysylltu trawsffiniol yn bodoli, megis Cynghrair y Rheoleiddwyr ar gyfer Datblygiad Seilwaith (RAPID), rydym yn disgwyl bod penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru yn cael eu gwneud yng Nghymru.